**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar sail rithiol ar ddydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020**

**Presennol**: Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)
Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd) (ar gyfer y cyfarfod hwn)

Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts.

Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans

**Wrth Law**: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Dros Dro - Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 7), Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 10), Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Yswiriant a Risg (ar gyfer eitem 12), Rheolwr Rheoli Perfformiad a Gwasanaethau TG (ar gyfer eitem 10), Uwch Reolwr Addysg (Sector Uwchradd) (ar gyfer eitem 4), Swyddog Diogelu Data Ysgolion (ar gyfer eitem 5), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Richard Griffiths a P S Rogers

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), y Cynghorydd R .Meirion Jones (Aelod Portffolio dros Addysg) Mr Jeremy Evans a Bethan Roberts (Archwilio Cymru) Prif Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd ( NR), Uwch Archwilydd (BJ), Mr Gareth Wyn Williams, Gohebydd Democratiaeth Leol.

(2:00 p.m. to 5:00 p.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1 Datganiad o Ddiddordeb**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar y diwygiadau a ganlyn -<br>• Yn y fersiwn Saesneg rhoi "to" yn lle "two" yn llinell gyntaf y pwynt bwled cyntaf o dan eitem 3.<br>• Yn y fersiwn Saesneg newid "interest incurred" yn ail linell yr ail bwynt bwled o dan eitem 3 am "interest received."<br>• Yn y fersiwn Saesneg newid "distrusted" yn llinell gyntaf y trydydd |

| | |
|---|---|
| | pwynt bwled o dan eitem 3 am "distributed."<br>• Nodi nad yw'r frawddeg yn y pedwerydd paragraff o dan eitem 3 sy'n dechrau "Mr Howse reported the External that a level of materiality was set at £3.7m which would apply to any local authority in Wales……" yn darllen yn dda a'i bod yn anghyflawn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cyngor Sir Ynys Môn - Ymateb ac Adfer yn Sgîl Covid 19 - Sicrwydd Dros Dro**<br>Adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd derbyn a nodi canfyddiadau dros dro Archwilio Cymru fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Diweddariad ar Strategaeth a Blaenoriaethau Archwilio Mewnol 2020/21**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.<br><br>NI WNAED CYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Gwerthuso Diogelu Data yn Ysgolion Ynys Môn - Ymweliad Gwerthusiad Cyntaf i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Ynys Môn gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion Gorffennaf 2020**<br>Adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd –<br><br>• Derbyn adroddiad a chanfyddiadau'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion a,<br>• Cymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu yn unol â gofynion diogelu data |

| | |
|---|---|
| | NI WNAED CYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2020/21**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ar yr adolygiad Rheoli Trysorlys canol blwyddyn ar gyfer 2020/21 heb wneud sylw pellach.<br><br>NI WNAED CYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Llythyr Archwilio : Cronfeydd Cyfun Rhanbarthol mewn perthynas â Lleoedd i Bobl Hyn mewn Cartrefi Gofal**<br>Adroddiad gan yr Archwiliwyr Allanol |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd nodi'r Llythyrau Archwilio a'u cynnwys a chefnogi'r safiad a gymerwyd gan yr Awdurdod mewn perthynas â Chronfa Gyfun Gogledd Cymru ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn.<br><br>NI WNAED CYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Blaen Raglen Waith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd derbyn y Flaenraglen Waith heb ei newid. |

EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seibr 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodir sicrwydd a ddarparwyd ynddo.<br><br>NI WNAED CYNNIG AR GYFER |

| | |
|---|---|
| | GWEITHREDU YCHWANEGOL |

EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **12 Diweddariad ar y Gofrestr Risg**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd nodi’r diwygiadau i’r gofrestr Risg Gorfforaethol fel rhan o drefniadau’r Cyngor ar gyfer rheoli ei risgiau a chymryd sicrwydd bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod y risgiau i gyflawni blaenoriaethau’r Cyngor ac yn eu rheoli.<br><br>NI WNAED CYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL |